# CYNGOR SIR *POWYS* COUNTY COUNCIL

## DISGRIFIAD SWYDD

**Mae'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymhwyster hanfodol ar gyfer y swydd hon**

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | **Cynorthwyydd Safle Cyn-Ysgol** |
| **Rhif y Swydd:** | **SYR0071** |
| **Cod Gwerthuso Swyddi:** | **SCH56** |
| **Gwasanaeth:** | **Ysgolion** |
| **Lleoliad/Canolfan Waith:** | **Ysgol Y Bannau** |

(mae hon yn swydd gweithio o leoliad, ac felly bydd rhaid i'r sawl sydd yn y swydd weithio o leoliad penodol fel y nodir)

| | |
|---|---|
| **Graddfa:** | **Graddfa 4**<br>**Pwynt 5 i Bwynt 6**<br>**£26,427 i £26,847 y flwyddyn ar gyfartaledd**<br>**£13.69 i £13.91 yr awr** |
| **Oriau'r contract:** | **30 awr, Cyfnod penodol tan 19/03/2027** |
| **Atebol i:** | **Arweinydd Safle Cyn – Ysgol** |
| **Cyfrifoldeb dros:** | **Neb** |

## Crynodeb

**Yn cynorthwyo arweinydd y safle wrth gynllunio, adolygu a chyflenwi cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac wrth gefnogi gofal, iechyd, diogelwch, lles, cymorth emosiynol ac ymddygiadol y disgyblion.**

**Yn cyfrannu at ddarparu amgylchedd cynnes a chroesawgar yn y safle lle gall y plant a'r gofalwyr deimlo bod rhywun yn eu gwerthfawrogi, a chael cymorth a chefnogaeth gadarnhaol ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau.**

**Mae'r swydd yn cael cyfarwyddyd gan Arweinydd y Safle neu 'unigolyn cyfrifol' neu aelod arall o staff uwch, ac mae'n atebol i'r sawl hwn.**

### Bydd eich cyfrifoldebau'n cynnwys:

1. **Cyfrifoldeb am eraill**: Mae'r swydd yn cael peth effaith ar les unigolion neu grwpiau (h.y. corfforol, meddyliol, cymdeithasol, iechyd a diogelwch).

2. **Cyfrifoldeb am staff**: Prin yw cyfrifoldeb uniongyrchol y swydd (os o gwbl) am oruchwylio staff eraill er gall fod disgwyl i ddeiliad y swydd arddangos tasgau neu gynghori/tywys cyflogeion newydd, pobl sydd ar brofiad gwaith neu dan hyfforddiant.

3. **Cyfrifoldeb am adnoddau ariannol**: Prin yw cyfrifoldeb y swydd (os o gwbl) am adnoddau ariannol heblaw ymdrin weithiau â symiau bach o arian, prosesu sieciau, anfonebau etc.

4. **Cyfrifoldeb am adnoddau ffisegol**: Prin yw cyfrifoldeb uniongyrchol y swydd (os o gwbl) am adnoddau ffisegol, heblaw trin offer a'i ddefnyddio'n ofalus (e.e. cyfrifiadur) a gosod adnoddau yn ôl cyfarwyddyd arweinydd y safle.

5. **Cefnogi'r cwricwlwm:**

- Cefnogi dysgu'r plant fel y cyfarwyddir, yn unol ag egwyddorion arfer da ac fel y diffinnir gan Fframwaith y Cyfnod Sylfaen, i feithrin annibyniaeth a hunan-barch
- Gosod esiampl o ddefnyddio iaith yn dda i gefnogi pob maes dysgu
- Trafod a rhyngweithio â'r plant gan ddefnyddio iaith briodol
- Annog sgiliau meddwl cynnar a chynnwys y plant yn eu dysgu eu hunain

6. **Cefnogi'r plant:**

- Rhoi cymorth i'r plant fel y cyfarwyddir gan arweinydd y safle – gallai hyn gynnwys darllen stori neu helpu gydag anawsterau corfforol wrth annog annibyniaeth (e.e. gyda glendid personol, gwisgo esgidiau etc).
- Nodi patrymau ymddygiad annodweddiadol ymhlith y plant a rhoi gwybod i arweinydd y safle am y rhain
- Cefnogi'r plant i gael mynediad at gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen drwy ryngweithio gan ddefnyddio iaith briodol (gan gynnwys mathau eraill o gyfathrebu) a chyda'r plant ieuengach, estyn dysgu sy'n seiliedig ar chwarae yn yr ystafell ddosbarth dan do ac awyr agored
- Cynorthwyo i oruchwylio'r plant, er enghraifft wrth iddynt gyrraedd/gadael
- Rhoi cysur yn ôl yr angen a threfnu gofal ar unwaith ar gyfer mân ddamweiniau, afiechydon ac anhwylderau a rhoi gwybod i arweinydd y safle am broblemau difrifol ac achosion tybiedig o berygl neu risg i iechyd.

7. **Cefnogi arweinydd y safle:**

- Cynorthwyo i reoli'r amgylchedd dysgu o ddydd i ddydd, e.e. paratoi/clirio adnoddau dysgu; rhoi gwybod i arweinydd y safle am eitemau diffygiol/difrodedig; cyfrannu at greu arddangosiadau o waith y plant a'u cynorthwyo i sefydlu a chynnal meysydd darpariaeth barhaus etc.
- Cyfrannu at gadw cofnodion – e.e. rhoi gwybodaeth berthnasol ar lafar i gyfrannu at gynllunio, arsylwi a gwerthuso dysgu'r plant, a nodi'r cam nesaf iddynt.
- Rhoi adborth i arweinydd y safle am y gweithgareddau dysgu, yr ymatebion iddynt a'r cymorth a roddwyd
- Cynorthwyo i reoli ymddygiad plant
- Cyflawni tasgau gweinyddol rheolaidd
- Trefnu a thacluso cypyrddau

- Tacluso

**Gofynion Gwirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:**

Oherwydd natur y gwaith sydd ynghlwm â'r swydd, bydd y swydd rydych yn ymgeisio amdani yn dod o dan y Gorchymyn Deddf Adsefydlu Tramgwyddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 (fel y'i diwygiwyd yn 2013)

Mae gan y swydd hon ofyniad am Wiriad Manylach y DBS. Mae'r swydd hon yn cael ei chyfri'n weithgaredd rheoleiddiedig dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012, a bydd yn destun gwirio rhestr o'r bobl hynny sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant.

**Gofynion Iechyd a Diogelwch**

Cydweithio â'r cyflogwr a dilyn cyngor a chyfarwyddiadau iechyd a diogelwch

**Datganiad Cydraddoldebau:**

Cadw at egwyddorion ac arferion cyfle cyfartal fel y nodir hwy ym Mholisi Cyfle Cyfartal y Cyngor

**Gofynion y Gymraeg**

Mae'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymhwyster hanfodol ar gyfer y swydd hon

**SYLWCH;**

Er y manylion sydd yn y swydd ddisgrifiad, bydd gofyn i'r sawl sydd yn y swydd wneud unrhyw waith ar gais y Rheolwr o dro i dro, hyd at neu ar lefel sy'n cyfateb â 'Phrif Gyfrifoldebau'r Swydd.'

# Y PERSON

Ydych chi'n meddwl mai chi yw'r person cywir i'r rôl? Os felly, dangoswch eich bod chi'n bodloni'r meini prawf canlyniol yn eich cais.

## Profiad

- Bod â phrofiad o weithio gyda phlant o'r oedran dan sylw yn y swydd, er nad oes angen unrhyw brofiad blaenorol o weithio fel cynorthwyydd addysgu
- Yn gallu defnyddio technoleg fel arf dysgu – e.e. cyfrifiadur, fideo.
- Yn gallu gweithredu offer technolegol – e.e. llungopïwr, camera digidol

## Gwybodaeth

- Bod â dealltwriaeth am anghenion addysgol ychwanegol.
- Bod â gwybodaeth a dealltwriaeth am weithdrefnau a pholisïau'r safle
- Bod â gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn am egwyddorion ac ethos y Cyfnod Sylfaen
- **Bod yn ymwybodol o faterion diogelwch/amddiffyn plant e.e. unrhyw bolisïau lechyd a Diogelwch perthnasol**

## Cofrestriadau, Cymwysterau a Hyfforddiant

- Bod ag o leiaf un TGAU/TAG (neu gymhwyster cyfwerth) mewn llythrennedd a rhifedd ac wedi cyflawni o leiaf NVQ2 (neu'n gweithio tuag ato) neu'n meddu ar brofiad neu gymhwyster cyfwerth mewn disgyblaeth gysylltiedig â phlant

## Rhinweddau Personal

- Wedi ymrwymo i'w ddatblygiad proffesiynol ei hun, ac yn fodlon gwneud hyfforddiant priodol arall.
- Yn gallu uniaethu'n dda â phlant ac oedolion
- Bod â sgiliau cyfathrebu a gwrando da
- Yn gallu dilyn cyfarwyddiadau ond hefyd yn gweithio ar ei liwt ei hun pan fydd gofyn
- **Gallu datrys problemau syml ac ymateb i amgylchiadau annisgwyl (e.e. peryglon, damweiniau etc)**

Welsh language statement

**Ein gwerthoedd:**

**Proffesiynol**
Rydym yn ymddwyn gyda phroffesiynoldeb ac integriti ym mha bynnag rôl yr ydym yn ei chwarae yn y cyngor

**Cadarnhaol**
Mae ein hagwedd yn gadarnhaol ym mhopeth a wnawn

**Blaengar**
Mae ein hymagwedd yn rhagweithiol a chyfrifol wrth gynllunio am y dyfodol

**Agored**
Rydym yn hysbysu'n gilydd gan rannu gwybodaeth ac ymddwyn â gonestrwydd ac integriti

**Cydweithiol**
Rydym ni'n gweithio'n adeiladol ac â pharodrwydd ar fentrau ar y cyd

## Sut i ymgeisio

Bydd angen i chi gwblhau'r cais ar-lein, mae'n syml, dilynwch y broses gam wrth gam.

**Gair i gall:**

- Darllenwch y Swydd Ddisgrifiad a Manyleb y Person yn ofalus a'r dystiolaeth eich bod chi'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol yn eich datganiad cefnogi.
- Gwerthwch eich hun a rhowch enghreifftiau ble y bo'n bosibl
- Rhestrwch y cymwysterau sydd gennych sy'n berthnasol i'r swydd, yn ôl y manylion ym manyleb y person.
- Sicrhewch fod un o'ch canolwyr o'ch cyflogwr mwyaf diweddar neu os mai hon yw eich swydd gyntaf beth am ofyn i athro ysgol neu diwtor, ond sicrhewch eich bod yn adnabod y canolwr ar lefel broffesiynol.
- Byddwch yn onest a dywedwch wrthym am unrhyw fylchau yn hanes eich cyflogaeth
- Cwblhewch y cais yn gyflawn

## Camau nesaf

Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw 27/11/2026.
Ar ôl cyflwyno byddwn yn anfon e-bost atoch i roi gwybod i chi ein bod ni wedi derbyn eich cais.
Byddwn yn creu rhestr fer o'r ceisiadau ar 30/11/2026. Byddwn yn anfon e-bost atoch os ydych chi'n llwyddiannus ai peidio. Felly, cadwch lygad ar eich mewnflwch!

Bydd y cyfweliadau'n digwydd ar 07/12/2026.

Dymunwn bob hwyl i chi gyda'ch cais.